

Patrôl Pobl

Rhondda Cynon Taf Mwy Diogel Hydref 2018

Croeso...

i rifyn mis Tachwedd 2018 o'r Cylchlythyr Cymunedau Diogel am ddim, Patrôl Pobl. Mae'r cylchlythyr yma i unrhyw un sydd â diddordeb mewn digwyddiadau cyfredol sy'n ymwneud â materion ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau sy'n effeithio ar ein cymunedau.

Mae'r Cylchlythyr yma'n caniatáu i Garfan Cymunedau Diogel Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, mewn Partneriaeth â Heddlu De Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, eich gwneud chi'n effro i faterion fel Atal Trosedd, Materion Diogelwch ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a sut y gallwch chi roi gwybod am y materion yma sy'n effeithio arnoch chi er mwyn gwella'r ardal lle rydych chi'n byw.

Rydyn ni'n gobeithio y byddwch chi'n tanysgrifio drwy e-bost, a gyda chymorth yr erthygl yma, y byddwch chi'n teimlo'n hyderus i roi gwybod am faterion yn ddiogel a phriodol os bydd unrhyw beth yn codi. Ar ben hynny, bydd ein llwyfan negeseuon e-bost yn galluogi Asiantaethau Partner, fel yr Heddlu, i'ch e-bostio chi i roi gwybod am unrhyw droseddau a allai fod yn digwydd yn eich ardal.

Gallwch chi fod yn sicr ein bod ni, gyda'n gilydd, yn helpu i wneud gwahaniaeth trwy roi gwybod i asiantaethau ac unigolion am y materion a'r digwyddiadau rydych chi'n adrodd amdany'n nhw.

Cynnwys TUD


Materion sy'n effeithio ar eich Cymuned**2-3**

Sut gallwch chi helpu**4**

Noson Tân Gwyllt yn Rhondda Cynon Taf**5**

Atal Trosedd yn yr Haf**6-11**

Crime Stoppers DU.....**11**





Materion sy'n Effeithio ar eich...

Allwch chi helpu?

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT), Heddlu De Cymru (HDC) a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i gyd wedi nodi'n ddiweddar bod cynnydd mewn gweithgarwch anghyfreithlon gan gerbydau oddi ar y ffordd yn ein mannau agored, ein strydoedd, ein parciau a'n lonydd.


Mae llawer o drigolion yn rhoi gwybod am nifer fawr o gerbydau oddi ar y ffordd, fel:

- Sgrialwyr
- Beiciau modur
- Beiciau cwad
- Cerbydau 4x4 oddi ar y ffordd

Rydyn ni'n annog yn gryf bob person sy'n defnyddio'r mathau yma o gerbydau i wneud hynny mewn cyfleuster neu ganolfan gymeradwy ar gyfer beicio oddi ar y ffordd, lle mae'r holl hyfforddiant, cyngor, cyfarwyddyd, diogelwch a chymorth brys sydd eu hangen ar gael yn rhwydd. Heb os, mae rhai o'r bobl sy'n defnyddio'r cerbydau'n anghyfreithlon yn bobl leol, neu sy'n dod o drefi a phentrefi cyfagos lle rydyn ni i gyd yn byw, yn gweithio ac yn ymweld. Mae llawer yn teithio o'r tu allan i Gymru (o leoedd fel Birmingham a Chaercolun), gan deithio yma a'i gymryd yn ganiataol ei fod yn gyfreithiol i ddefnyddio'r cerbydau yma yn ein coedwigoedd a'n mannau agored.

Mae yna nifer o drigolion yn pryderu am y mater, ac wedi rhoi gwybod am achosion o oedolion a phlant bron â chael eu taro neu'n cael eu dychryn gan y natur fygythiol o yrru neu gan sŵn y cerbydau. Y peth olaf rydyn ni am ei weld yw rhywun yn cael ei frifo tra ei fod yn cerdded neu'n marchogaeth.

Mae gweithrediadau ar y cyd wedi bod yn parhau rhwng Heddlu De Cymru a'r cyngor yn ardal Hirwaun yng Nghwm Cynon. Mae'n ymwneud â beiciau modur yn teithio'n anghyfreithlon ar y briffordd a defnyddio'r Hawliau Tramwy yn ardal y Tram Way. Mae hyn wedi arwain at ystyriaethau o ail-leoli rhai o'r clwydi presennol ac i drwsio'r clwydi sydd wedi'u difrodi. Bydd gweithrediadau ar y cyd yn parhau nes i'r broblem gael ei datrys.



Cymuned

Caeau Glasbrook, Penrhiw-ceibr

Mae'r gymuned leol yn dioddef problemau o feiciau oddi ar y ffordd anghyfreithlon sy'n mynd i'r Caeau Pêl-droed ac sy'n achosi difrod i'r caeau. Ar adegau bydd y bobl sy'n defnyddio'r caeau mewn perygl oherwydd y beiciau yma. O ganlyniad, cynhaliodd Adran Parciau'r Awdurdod Lleol gyfarfod â'r Heddlu. Cytunwyd y bydd clwydi ychwanegol yn cael eu gosod o amgylch y caeau chwarae er mwyn rhwystro mynediad i'r ardal. Bydd hyn yn golygu bod trigolion yn gallu mwynhau defnyddio'r caeau chwarae.

Gwahardd Yfed Alcohol ar y Strydoedd yng Nghanol Trefi Pontypridd ac Aberdâr

Daeth y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus i rym o 1 Medi 2018. Mae'r gorchymyn yn gwahardd pobl rhag yfed alcohol ar strydoedd Canol Trefi Pontypridd ac Aberdâr. Ers dod i rym, mae'r Heddlu a'r Awdurdod Lleol wedi bod yn gweithio ar y cyd i gynnal sesiynau cylchwylio. O'r 2 Hydref 2018, gallwn ni gadarnhau bod 6 unigolyn wedi cael eu hatal rhag yfed alcohol yng nghanol y trefi, a bod yr alcohol wedi'i gymryd oddi wrthyn nhw. Pe na bai'r unigolion yma wedi cydymffurfio, byddan nhw wedi derbyn hysbysiad cosb benodedig o £100.

Am ragor o wybodaeth, dilynwch y ddolen gyswllt isod:

<https://www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/Campaigns/PSPO/CallingTimeonStreetDrinking.aspx>

Parc Gelligaled Llwynypïa, Cwm Rhondda

O ganlyniad i faterion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ym Mharc Gelligaled dros yr haf, aeth swyddogion y Cyngor gyda swyddogion yr Heddlu i ymweld â'r parc er mwyn mynd i'r afael â'r problemau'n uniongyrchol. O ganlyniad, mae yna gynllun i osod ffensys newydd ac i drwsio'r hen ffensys. Ar ben hynny, cafodd gwaith ei gynnal o ran ymgysylltu â phobl ifainc. Mae hyn wedi arwain at sesiwn casglu sbwriel yn y parc ddydd Sadwrn 23 Medi 2018 gyda'r bobl ifainc lleol, ymgyrch Cadwch Gymru'n Daclus ac asiantaethau partner. Cafodd PACT ieuencid ei sefydlu'n ddiweddar yn yr ardal sydd wedi darparu fforwm defnyddiol i bobl ifainc sydd am gyfrannu syniadau o sut i wella'r parc yn y dyfodol. Cynghorwyd trigolion i ffonio'r Heddlu ar 101 os ydyn nhw'n gweld unrhyw Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn y Parc. Bydd yr holl atgyfeiriadau y mae'r Heddlu a'r Awdurdod Lleol yn eu derbyn yn eu galluogi i ddelio â'r troseddwyd yn gynt ac mewn modd mwy effeithiol.



Sut gallwch chi **HELPU**

Os ydych chi'n dyst i achosion o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, y cyngor yw i chi beidio â mynd i'r afael â'r troseddwyd eich hun a chadw eich hun yn ddiogel bob amser. Ceisiwch wneud nodyn meddyliol o'u manylion a'u cerbyd - bydd yn helpu'r Heddlu gyda'u hymholiadau.

Ffoniwch yr **Heddlu** ar y rhif ar gyfer achosion sy ddim yn argyfwng, **101** i adrodd am bob digwyddiad. Os ydych chi'n credu bod y digwyddiad yn **Argyfwng**, dylech ffonio **999**

Rhifau argyfwng a rhifau ar gyfer achosion sy ddim yn argyfwng

Argyfwng **999**

Achosion sy ddim yn Argyfwng **101**

Y Gwasanaeth Tân -

Dim Mewn Argyfwng **01443 232000**


Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

01443 425001

Ffurflenni adrodd ar-lein Gwefan Cyngor

Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

www.rctcbc.gov.uk/RhoiAdroddiad



NOSON TÂN GWYLLT

Eich canllaw i ddigwyddiad mwy diogel



Hoffai'r Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru gyhoeddi'r cyngor canlynol...

Os ydych chi'n bwriadu cael coelcerth, cysylltwch â'r Gwasanaeth Tân ar **01268 909408** a rhoi'r manylion canlynol:

- Dyddiad, Amser a Lleoliad y goelcerth.
- Enw'r person cyfrifol a rhif ffôn cyswllt.
- Sut rydych chi'n bwriadu diffodd y tân ar ôl y digwyddiad neu os yw'n mynd allan o reolaeth.

GWNEWCH

- ✓ **LLEOLIAD:** Cadwch y goelcerth i ffwrdd o dai, garejys, siediau, ffensys, ceblau uwchben, coed a llwyni - fel arfer bydd 15 metr yn bellter diogel.
- ✓ **CYTBWYS:** Sicrhewch fod y goelcerth yn sefydlog a ddim yn mynd i ddisgyn.
- ✓ **PELLTER:** Sicrhewch fod pawb yn cadw i ffwrdd o'r goelcerth (o leiaf 15 metr) a bod plant wedi'u goruchwyllo ar bob adeg.
- ✓ **DŴR:** Cadwch gyflenwad o ddŵr (bwcedi, piben ddŵr) neu offer diffodd tân yn agos rhag ofn bod argyfwng.
- ✓ **DIFFODD:** Arllwyswch ddŵr ar weddillion y goelcerth cyn i chi adael.
- ✓ **ANIFEILIAID:** Cadwch anifeiliaid anwes i mewn yn ystod noson tân gwyllt.

PEIDIWCH

- ✗ **PEIDIWCH** â llosgi'r canlynol:
 - Teiars
 - Silindrau
 - Tuniau
 - Erosolau
 - Paent
 - Plastig
 - Rwber a dodrefn sydd wedi'u llenwi â Sbwng
- ✗ **PEIDIWCH BYTH** â defnyddio hylifau fflamadwy i gynnu coelcerth.
- ✗ **PEIDIWCH BYTH** â chadw tân gwyllt yn agos at goelcerth.
- ✗ **PEIDIWCH BYTH** â gadael coelcerth heb oruchwyliaeth.

FFONIWCH 999 MEWN ARGYFWNG!

**PEIDIWCH Â THALU'R PRIS;
EWCH I ARDDANGOSFA SYDD WEDI'I THREFNU**



Cyngor atal troseddau tymhorol... **GAEAF**

RHYBUDD SGAM

Mae Heddlu De Cymru yn rhybuddio'r cyhoedd i fod yn ofalus ac yn wiliadwrus, ar ôl i nifer o bobl roi gwybod am rywun sy'n honni ei fod yn swyddog heddlu, yn swyddog o wasanaeth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a swyddogion o'r banc. Mae'r person yn adrodd hanes manwl er mwyn ceisio dwyn symiau sylweddol o arian oddi wrth y dioddefwyr.

Cofiwch!

Bydd Asiantaethau'r Llywodraeth, yr Heddlu, Banciau a Busnesau go iawn **BYTH** yn gofyn i chi rannu gwybodaeth bersonol, datgelu manylion banc, neu'n gofyn am daliadau.

STOPIWCH Bob tro bydd rhywun yn gofyn i chi anfon arian neu roi manylion.

GWIRIWCH mai swyddogion cyfreithlon ydyn nhw.
Ffoniwch nhw'n uniongyrchol ar rif ffôn swyddogol.

GWEITHREDWCH drwy ffonio 999 os oes trosedd yn digwydd neu os ydych mewn perygl.

DYWEDWCH wrth eich ffrindiau a'ch teulu, a ffonio 101 i ddweud wrth yr heddlu os nad ydych chi eisoes wedi dweud hynny

FFOCWS DIODDEFWYR DE CYMRU

Gwasanaeth Lleol sy'n cael ei redeg gan yr elusen genedlaethol ac annibynnol, Cymorth i Ddioddefwyr yw Ffocws Dioddefwyr De Cymru. Rydyn ni'n darparu cymorth i unrhyw un yn Ne Cymru sydd wedi'i effeithio gan droseddau. Dydyn ni ddim yn rhan o'r heddlu, y llysoedd nac unrhyw asiantaeth cyfiawnder troseddol arall. Mae ein gwasanaethau yn rhad ac am ddim, yn gyfrinachol ac ar gael p'un a yw'r trosedd wedi cael ei adrodd ai peidio, ac ni waeth pa bryd y digwyddodd.


P'un a ydych chi wedi cael eich effeithio'n uniongyrchol gan drosedd, yn adnabod rhywun sydd wedi cael ei effeithio neu os ydych chi wedi bod yn dyst i rywbeth, rydym yma i chi. Mae ein staff a gwirfoddolwyr lleol sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig yn gallu cynnig cymorth a chefnogaeth uniongyrchol a hirdymor i'ch galluogi chi i ymdopi ac adfer rhag effaith y troseddau.

Deallwn fod profiad pawb yn wahanol. Efallai eich bod chi'n teimlo bob math o emosiynau, efallai hoffech chi gael atebion i'ch cwestiynau neu efallai y byddwch chi'n teimlo'n ddryslyd am yr hyn sy'n digwydd nesaf. Byddwn ni'n gweithio gyda chi i ddeall y dull orau i'ch helpu chi, a byddwn ni yno i chi gyhyd ag sydd ei angen.

Ffôn 0300 303 0161 neu
www.ffcwsdioddefwyrdecymru.org.uk



South Wales Victim Focus
Ffocws Dioddefwyr De Cymru



#YfedLlaiAMwynhau

Mae yna sawl peth a allai ddifetha noson allan i chi a'ch ffrindiau, fel gwrthod mynediad neu wasanaeth mewn bar neu glwb am fod yn rhy feddw, derbyn dirwy am brynu diod ar gyfer rhywun sy'n feddw neu'n gorfod mynd adref yn gynnar oherwydd eich bod chi wedi cael gormod i'w yfed. Rydyn ni wedi llunio rhestr o awgrymiadau i'ch helpu i gael noson wych.

1 Peidiwch ag yfed gormod gartref

Gall yfed yn y cartref cyn i chi fynd allan ymddangos fel syniad da. Efallai y bydd yn eich helpu chi i ymlacio ac yn ddull o arbed arian, ond gallai olygu bod y gost yn uwch yn y tymor hir. Mae pobl sy'n yfed yn y cartref cyn mynd allan yn tueddu i anghofio faint y maen nhw wedi yfed yn barod, ac yn y diwedd yn meddwi'n waeth nag yr oedden nhw'n bwriadu. Yn aml, gall hyn arwain at lawer o ganlyniadau negyddol, a'ch gwneud chi'n fwy tebygol o:

- ddioddef salwch oherwydd yfed gormod o alcohol, gan gynnwys chwydu, a all ddod â'ch noson i ben yn gynnar
- ymladd
- gael eich anafu oherwydd syrthio

2 Sicrhewch eich bod chi ddim yn cael gwenwyn bwyd

Dydy'r mwyafrif o bobl ddim yn gwybod bod alcohol yn wenwyn, a gall yfed gormod gael effaith uniongyrchol a difrifol ar eich iechyd. Os ydych chi allan yn y dref ac yn teimlo'n feddw, yna dyma ambell ddull i'ch helpu chi sobreiddio:

- Peidiwch ag yfed diodydd alcoholig
- Ewch i gael rhywbeth i'w fwyta
- Yfwch ddŵr
- Gofynnwch i ffrind fynd â chi adref neu yn ôl i'ch gwesty

3 Chwiliwch am Fugeiliaid y Stryd (Street Pastors)

Os ydych chi'n teimlo'n rhy feddw ar noson allan, edrychwch am Fugeiliaid y Stryd sy'n darparu cefnogaeth dosturiol yn yr ardal leol. Maen nhw'n gweithio mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru yng nghanol trefi, ac yn cylchwylio'r ardaloedd mwyaf poblogaidd gyda phawb sydd ar noson allan. Gallen nhw roi dŵr a chymorth ymarferol i chi os oes angen. Maen nhw'n gwisgo cotiau glas â logo Bugeiliaid y Stryd ar y cefn.

4 Defnyddiwch y prif safle tacsis

Mae'n bwysig iawn i ni eich bod chi'n teithio adref yn ddiogel ar ôl noson allan.





Cyngor atal troseddau tymhorol... GAEAF

Dyma gyfle gwerthfawr i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Partneriaeth Cymunedau Diogel ac Asiantaethau Partner i gynnig cyngor effeithiol ar gyfer atal troseddau yn ystod cyfnod y Gaeaf. Gyda'r wybodaeth yma gallwch chi fod yn barod, ac mae'n hanfodol i ni wneud unrhyw beth i'ch helpu chi atal unrhyw ddarpar droseddwr.

Peidiwch â rhoi cyfle neu reswm i ladron ddod i mewn i'ch cartref

Gan fod nosweithiau'r Hydref a'r Gaeaf yn tywyllu, mae hyn yn rhoi cyfnodau hirach o dywyllwch fel gorchudd ar gyfer lladron. Dyma gyngor i breswylwyr:


1. Sicrhewch fod drysau a ffenestri'r tŷ wedi'u cloi ar bob adeg.
2. Peidiwch â gadael anrhegion o dan y goeden Nadolig os oes modd eu gweld drwy'r ffenestri neu'r drysau.
3. Ar ôl i chi agor unrhyw anrhegion sy'n ddrud, rhwygwch y bocsys cyn cael gwared arnyn nhw, mae'n anoddach i weld beth rydych chi wedi'i brynu.
4. Peidiwch byth â chadw symiau mawr o arian yn y cartref.
5. Cuddiwch eich allweddi bob tro. Peidiwch â'u gadael nhw yn y drws neu mewn golwg drwy ffenestri.

Mae lladron yn hoffi gweithio'n gudd, felly tociwch wrychoedd a llwyni

1. Tociwch wrychoedd a llwyni yn eich gardd flaen fel eu bod yn is nag uchder silff y ffenestr i atal lladron rhag cuddio y tu ôl iddyn nhw.
2. Defnyddiwch raeau ar lwybrau i helpu i atal lleidr rhag dod i'ch tŷ.
3. Mae plannu planhigion mewn modd penodol yn helpu hefyd - defnyddiwch blanhigion a llwyni pigog yn agos at ardaloedd hawdd eu cyrraedd megis ffenestri, ffensys, waliau ffin a phibau glaw.

Mwynhewch eich gwyliau Nadolig ond gwnewch yn siŵr bod eich cartref yn edrych fel pe bai rhywun yno os ydych chi'n mynd i ymweld â theulu.

1. Defnyddiwch switsys wedi'u hamseru ar oleuadau er mwyn i'ch cartref edrych fel bod rhywun yn byw ynddo gyda'r nos.
2. Os oes modd, gadewch gar tu allan i'ch tŷ neu gofynnwch i gymydog barcio ei gar yno tra'ch bod chi i ffwrdd.
3. Gofynnwch i gymydog edrych ar ôl eich cartref tra'ch bod chi i ffwrdd a symud unrhyw bost allan o'r golwg.
4. Canslwch unrhyw gyflenwadau rheolaidd fel llaeth a phapurau newydd.
5. Clowch unrhyw eitemau gwerthfawr fel beiciau i ffwrdd - efallai byddan nhw'n fwy diogel yn eich cartref nag mewn tŷ allan neu sied.



Siopa Nadolig a mynd allan yn ystod cyfnod yr Hydref a'r Gaeaf

1. Cadwch yn effro i'r hyn sy'n digwydd o'ch cwrmpas, yn enwedig mewn siopau a strydoedd prysur lle gallai fod lladron yn gweithredu.
2. Cadwch bethau gwerthfawr ym mhocedi mewnol eich dillad neu mewn bag. Cadwch lygad arnyn nhw, a cheisio peidio â'u cadw nhw i gyd yn yr un lle.
3. Peidiwch â mynd â gormod o arian neu gardiau gyda chi - dim ond yr hyn sydd ei angen arnoch chi. Cuddiwch eich Rhif Adnabod Personol pan fyddwch chi'n defnyddio bysellfyrddau talu neu beiriannau arian parod.
4. Byddwch yn ofalus lle rydych chi'n parcio eich car, yn enwedig os byddwch chi'n dychwelyd ato ar ôl iddi dywyllu. Os ydych chi'n parcio mewn maes parcio aml-lawr, dewiswch lle sydd â digon o olau arno, ac sydd mor agos â phosib at yr allanfa. Ceisiwch osgoi parcio'n agos at golofnau'r adeilad.
5. Osgowch fynd yn ôl i'ch car i ollwng eich siopa ynddo hanner ffordd drwy'r daith. Os oes rhaid ichi gadw anrhegion yn y car, gwnewch yn siŵr eu bod allan o'r golwg yn y gyst, bod y car wedi'i gloi, a chadw'r derbynebaw gyda chi.
6. Atal lladron ac ymosodwyr. Peidiwch â gorlwytho'ch hun gyda bagiau / pecynnau. Byddwch yn ofalus iawn gyda physiau a waledi. Cariwch eich pwrs yn agos at eich corff yn hytrach na'i gario gan ddefnyddio'r strapiau. Rhowch waled mewn poced fewnol eich cot neu boced blaen eich trowsus. Gwnewch yr un peth gyda'ch ffôn a'ch allweddi.






Cyngor atal troseddau tymhorol... GAEAF

Mynd allan yn ystod cyfnod yr Hydref a'r Gaeaf

1. Gwylwch eich diodydd a'ch bwyd er mwyn sicrhau bod dim byd yn cael ei ychwanegu atyn nhw. Peidiwch byth â gadael eich diod heb oruchwyliaeth, hyd yn oed os ydych chi'n mynd i ddawnsio neu i'r toiled. Os yw eich diod wedi'i adael heb oruchwyliaeth, peidiwch â'i yfed. Os bydd rhywbeth yn blasu neu'n edrych yn od, peidiwch â bwyta / yfed rhagor. Byddwch yn ymwybodol, fodd bynnag, fod rhai cyffuriau yn ddi-liw ac yn ddi-flas.
2. Os bydd rhywun nad ydych chi'n ei adnabod neu'n ymddiried ynddo yn cynnig prynu diod i chi, dylech chi naill ai wrthod y cynnig neu fynd gyda'r person i'r bar a gwylwch nad oes dim yn cael ei ychwanegu.
3. Adnabod eich cyfyngiadau.
4. Os ydych chi'n cwrdd â rhywun newydd mewn parti, osgowch fynd adref gyda nhw neu eu gwahodd yn ôl i'ch cartref / derbyn lifft oddi wrthyn nhw. Mae'n fwy diogel trefnu i gwrdd am ail dro mewn man cyhoeddus er mwyn dod i adnabod y person yn well. Os ydych chi mewn sefyllfa lle rydych chi yng nghwmni rhywun dydych chi ddim yn ei adnabod yn dda, gwnewch yn siŵr bod rhywun yn gwybod ble rydych chi a phwy sydd gyda chi.
5. Gwrando ar eich greddfau. Os ydych chi'n teimlo'n anesmwyth yng nghwmni rhywun, efallai bod rheswm dros hynny.
6. Gwnewch yn siŵr bod rhywun yn gwybod ble rydych chi'n mynd a phryd byddwch chi'n cyrraedd adref.
7. Osgowch gerdded adref ar eich pen eich hun, a dylech chi byth cerdded yng nghwmni rhywun dydych chi ddim yn ei adnabod yn dda.
8. Byddwch yn gyfrifol wrth yfed alcohol a threfnu bod un aelod o'r grŵp yn yrrwr dynodedig.
9. Cyn i chi fynd i mewn i dacsï, gwiriwch fod ganddo blât trwydded yn y cefn a nodi'r rhif. Gofynnwch i weld bathodyn adnabod gyrrwr. PEIDIWCH â mynd i mewn i dacsï heb drwydded.
10. Mae'r holl gerbydau Hacni sydd wedi'u trwyddedu gan Gyngor Rhondda Cynon Taf yn ddu. Mae cerbydau Hacni yn gerbydau cludiant cyhoeddus sydd wedi'u trwyddedu i "weithredu fel tacsï". Mae modd dod o hyd i gerbydau Hacni ar safleoedd penodol mewn strydoedd, mae modd eu hurio o ochr y stryd. Rhaid i gost pob taith gael ei harddangos ar y mesurydd.
11. Mae'r holl gerbydau Hurio Preifat sydd wedi'u trwyddedu gan Gyngor Rhondda Cynon Taf yn wyn. Does dim hawl gan Gerbydau Hurio Preifat gael eu hurio o'r stryd neu aros mewn safleoedd tacsï. Rhaid trefnu bob siwrnai ymlaen llaw. Rhaid cytuno ar y pris cyn y daith.
12. Eisteddwch yng nghefn y cab / tacsï bob amser ac os byddwch chi'n sgwrsio â'r gyrrwr, peidiwch â rhoi manylion personol. Os ydych chi'n teimlo'n anesmwyth gyda'r gyrrwr, gofynnwch iddo stopio mewn man cyfarwydd a physur a gadewch y cerbyd. Os oes gennych chi ffôn symudol, rhowch wybod i rywun ble rydych chi.
13. Os ydych chi'n defnyddio cludiant cyhoeddus, cadwch eich tocyn, pas neu newid (arian) yn eich llaw fel bod eich waled neu'ch pwrs ddim yn weledol.
14. Arhoswch am y bws neu'r trê'n mewn lle wedi'i goleuo'n dda ger pobl eraill os yw'n bosib a cheisio trefnu bod rhywun yn cwrdd â chi yn yr arhosfan bysiau neu'r orsaf. Os bydd bws yn wag, neu os yw'n dywyll tu allan, efallai y byddwch chi'n teimlo'n fwy diogel ar y llawr isaf mor agos â phosib i'r gyrrwr. Ar drê'n, osgowch deithio mewn adrannau gwag. Os ydych chi'n teimlo dan fygythiad ar unrhyw drafnidiaeth gyhoeddus, pwyswch y larwm neu denwch sylw eich cyd-deithwyr neu'r gyrrwr neu'r gwarchodydd.
15. Sylwch ar leoliad y larymau brys a cheisio eistedd yn agos iddyn nhw.



Peidiwch â gwneud gwaith y lladron yn hawdd! Cadwch offer garddio wedi'u cloi i fwrdd

1. Defnyddiwch hasb cadarn a chlo â dolen glos i gloi eich sied.
2. Defnyddiwch foltau coets neu sgriwiau sy ddim yn dychwelyd er mwyn sicrhau bod y drws wedi'i osod yn sOWNd.
3. Rhowch offer garddio a dodrefn yr ardd i gadw bob amser pan fyddwch chi wedi gorffen eu defnyddio.
4. Cadwch ffensys eich gardd mewn cyflwr da ac ystyriwch gael trelis ar y brig i atal unrhyw leidr rhag dringo drostyn nhw.

A fydddech chi'n fwy cyfforddus

yn ddienw?

Oeddech chi'n gwybod bod yna rhif ar gyfer adrodd am droseddau yn ddienw?

Sefydliad elusen yw **CRIMESTOPPERS** sy'n annog pobl i adrodd yn ddienw os ydyn nhw am wneud hynny. Y rhif yw

0800 555 111



Wales/Cymru

CRIMESTOPPERS

0800 555 111

Call anonymously with information about crime

Ffoniwch yn ddienw os am roi gwybodaeth am drosedd